# D. R. HUGHES a'r *Cofion*

## gan HUW WILLIAMS

Yn rhifyn Nadolig 1991 (Rhif 45) o *Y Casglwr* dywedodd Glyn Ifans bod ganddo 'gyfrol nad oes un arall yn y byd yn union yr un fath â hi,' sef casgliad cyflawn o *Cofion Cymru (at ei phlant ar wasgar)* — rhifau 1-62, Ebrill 1941 hyd at Mehefin 1946. Mae gennyf innau hefyd set gyflawn o'r *Cofion*, ac yn naturiol mae'n set i'w thrysori.

Y golygyddion cyntaf oedd Cynan a Tom Parry, gyda'r Athro J. Morgan Jones, R. T. Jenkins, D. R. Hughes, a'r golygyddion, yn aelodau o'r pwyllgor. Erbyn y cyhoeddwyd yr ail rifyn (Mai 1941) 'roedd enw W. A. Bebb wedi cael ei ychwanegu fel aelod o'r pwyllgor, a phedwar o enwau ychwanegol erbyn yr ymddangosodd rhifyn 21 (Ionawr 1943), sef Picton Davies (tad yng nghyfraith Tom Parry), J. H. Williams, Llanberis (brawd Meirion Williams, y cyfansoddwr), A. Talfan Davies ac E. Morgan Humphreys.

Gydag ymddangosiad rhifyn Ebrill 1944 (Rhif 36) nodwyd mai'r golygyddion newydd oedd Cynan, W. A. Bebb a J. H. Williams, gyda Tom Parry ac Ifan Pugh yn gwasanaethu fel dau aelod newydd o'r pwyllgor. Dilëwyd enw Cynan fel un o'r golygyddion gydag ymddangosiad rhifyn Mai 1945 (Rhif 49), ond parhaodd i wasanaethu fel aelod gweithgar o'r pwyllgor. Yna, yn rhifyn Mawrth 1946 (Rhif 59) cofnodwyd marwolaeth y Prifathro John Morgan Jones, a wasanaethodd fel aelod o'r pwyllgor o'r dechrau, ond cadwyd ei enw ar y rhestr o'r aelodau hyd at ymddangosiad y rhifyn olaf ym Mehefin 1946 (Rhif 62).

Er bod yr uchod yn ddiau yn wybodaeth sy'n werth ei diogelu ar gyfer y dyfodol, prif bwrpas y nodyn hwn yw mynegi gwerthfawrogiad o wasanaeth nodedig un a fu'n gysylltiedig â'r *Cofion* ar hyd y daith, gan ddibynnu i raddau helaeth iawn ar dystiolaeth y diweddar Syr Thomas Parry ynglŷn â chymwynasgarwch diarhebol y gŵr hwnnw, a'r dystiolaeth honno'n seiliedig ar amryw sgyrsiau a fu rhyngom ar ei aelwyd ef ym Mangor.

Argreffid y *Cofion* hyd at rifyn Ionawr 1945 (Rhif 45) gan Evan Thomas, Bangor, a'i gyhoeddi dros y 'Gynhadledd er Diogelu Diwylliant Cymru' (dros Undeb Cymru Fydd ar ôl rhifyn Medi 1941) gan D. R. Hughes, Hen Golwyn. D. R. Hughes fyddai'n gofalu bod y *Cofion* yn cael ei argraffu'n brydlon ym Mangor, ac eto yn Lerpwl gan Wasg y Brython rhwng Ionawr 1945 a thranc y cylchgrawn ym Mehefin 1946. D. R. Hughes hefyd fyddai'n aml yn trefnu bod rhai o lenorion amlwg y genedl yn cysylltu â'r golygyddion, ac yn gofalu bod newyddion o bob math, ynghyd â hanesion am gyhoeddi llyfrau Cymraeg, yn cyrraedd i ddwylo'r golygyddion mewn da bryd.

Yn ychwanegol at y *Cofion*, cyhoeddwyd llyfrynnau bychain — pump ohonynt i gyd — gan bwyllgor y *Cofion* i'w dosbarthu i'r Cymry ar wasgar, ac yn ôl Syr Thomas Parry, gweledigaeth D. R. Hughes oedd yn bennaf gyfrifol am yr antur honno hefyd. Lawer tro, pan oedd prinder papur oherwydd y rhyfel, 'roedd yn ddirgelwch llwyr i'r golygyddion ac i aelodau'r pwyllgor sut y llwyddwyd i gyhoeddi rhifyn pedwar tudalen o'r *Cofion* yn gyson, gan gynyddu ei faint i wyth tudalen ym Mawrth 1943 a Mawrth 1945 (rhifynnau arbennig). Sut y llwyddai D. R. Hughes i sicrhau cyflenwad o bapur (o ansawdd braidd yn dywyll ambell dro mae'n wir) pan oedd eraill yn methu? Gofynnwyd y cwestiwn hwnnw i D. R. Hughes gan ambell aelod o'r pwyllgor, ond ni chafwyd ateb!

Nid oedd yn anarferol ychwaith ambell dro gweld bod rhai o dreuliau pwyllgor y *Cofion* wedi cael eu dileu, a chopïau wedi cael eu dosbarthu ar draul a chyfrifoldeb personol D. R. Hughes, meddai Syr Thomas. Yn wir, 'roedd yn arferiad gan y golygyddion ac aelodau'r pwyllgor ymddiried llawer o'r cyfrifoldeb iddo, gan wybod y byddai'n cyflawni'r gwaith yn ddistaw a di-rwgnach, meddai.

Gŵyr Cymru benbaladr erbyn hyn pwy oedd golygyddion y *Cofion*, ac y mae enwau aelodau'r pwyllgor hefyd yn rhai cyfarwydd iawn i bawb sydd heddiw'n ymddiddori yn 'y pethe', ond pwy oedd D. R. Hughes, Hen Golwyn? Credaf y byddai ychydig o hanes y gŵr diwyd a diymhongar hwnnw yn werth ei ddiogelu trwy gyfrwng *Y Casglwr*.

Yn frodor o Dreffynnon, lle y ganed ef ym 1874, treuliodd gyfnodau o'i fachgendod ym Mhorthmadog, Bangor a Llandudno, ond mewn busnes yn Llundain y bu am ran helaeth o'i oes, ac yno hefyd y daeth i amlygrwydd ym mywyd diwylliannol a chrefyddol y Cymry alltud. Am gyfnod golygai gylchgrawn gweithwyr yr 'United Dairies', a gwasanaethu fel cyd-olygydd *Y Ddolen*, cylchgrawn Cymry Llundain, a buasai hefyd yn llywydd Undeb Llenyddol Cymry Llundain. A phan gynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llundain ym 1909, gwasanaethodd fel cyd-ysgrifennydd.

Ond serch yr holl weithgarwch hwnnw, ar ôl iddo ymddeol i fwy i Gymru ym 1939 y cyflawnodd D. R. Hughes y gwasanaeth mawr y cofiwn amdano heddiw, ac oherwydd y gwaith hwnnw'n bennaf — yn ogystal â'i barodrwydd bob amser i hyrwyddo'r pethau gorau ym mywyd y genedl — y penderfynodd Prifysgol Cymru gyflwyno iddo radd anrhydedd ym 1943. Y flwyddyn ddilynol, yn y gyfres boblogaidd Llyfrau Pawb, cyhoeddwyd rhai o'i atgofion dan y teitl *Yma ac Acw*, ac y mae hwnnw eto yn tystio'n huawdl i'w weithgarwch diflino a'i ddiddordebau eang.

Pan ymddeolodd D. R. Hughes ym 1946 fel cyd-ysgrifennydd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, dywedodd Celt (E. Morgan Humphreys) yn y *Liverpool Daily Post* y byddai gwedd y Brifwyl yn dilyn blynyddoedd cythryblus y rhyfel yn dra gwahanol i'r hyn ydoedd onibai amdano. A phan fu farw D. R. Hughes ar Awst 29, 1953, ni allai Celt feddwl am air i'w ddisgrifio yn yr iaith fain a fyddai'n cyfleu'n union yr un ystyr â 'cymwynaswr' i'r sawl oedd yn ei adnabod.

# YN EISIAU

***Unrhyw ddarnau o gerddoriaeth gan Joseph Pring, Robert Roberts, Roland Rogers neu T. Westlake Morgan,*** *pob un ohonynt wedi bod yn organyddion yn Eglwys Gadeiriol Bangor.*
**DAVID R. PRICE, 51 Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd LL57 2TT. Ffôn: 0248 351914.**


Rhwymwr Llyfrau ac Atgyweirio

keith e. houghton

Penarth Fawr, Chwilog
Pwllheli, Gwynedd LL53 6PR
Ffôn: (0766) 810880


***Y gweithiau canlynol gan Kate Roberts:***
Rhigolau Bywyd a Storïau Eraill. Gwasg Aberystwyth, 1929;
Laura Jones. Gwasg Aberystwyth, 1930;
Ffair Gaeaf a Storïau Eraill. Gwasg Gee, 1937;
Stryd y Glep. Gwasg Gee, 1949;
Hyn o Fyd. Gwasg Gee, 1964;
Tegwch y Bore. Llyfrau'r Dryw, 1967.
Erthyglau ac Ysgrifau Llenyddol Kate Roberts; golygwyd gan David Jenkins. Christopher Davies, 1978.
**CARYS LEWIS, d/o Mrs Betty Lewis, Sŵn-y-môr, 32 Heol Aberwennol, Y Borth, Dyfed SY24 5NP.**

* * * *

***Eifionydd: a study in landownership from the medieval period to the present day;*** Colin A. Gresham. Cardiff: University of Wales Press, 1973.
***An inventory of the ancient monuments in Wales and Monmouthshire,*** *VI County of Merioneth; Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments and Constructions in Wales and Monmouthshire. London, HMSO, 1921.*
**ERIC OWEN, 5 Glan Llyn, Penrhyndeudraeth, Porthmadog, Gwynedd. Ffôn: 0766 771335.**

* * * *

***Ymfudo o Wynedd i'r Unol Daleithiau y bedwaredd ganrif ar bymtheg.*** *Nineteenth century emigration from Gwynedd to the United States. Caernarfon: Gwasanaeth Archifau Gwynedd, 1977.*
**WILFRED J. WILLIAMS, Haulfryn, 39 Penyffordd, Penrhos, Bangor, Gwynedd LL57 2LZ. Ffôn: 0248 364173.**

* * * *

***Y Beibl Cyssegr-lan . . .*** *Llundain, 1588. Yr adargraffiad ffacsimili a gyhoeddwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1987.*
**Dr GEORGE H. GUEST, St. John's College, Cambridge CB2 1TP. Ffôn: 0223 338683.**

* * * *

***Ar Ffiniau Meddygaeth;*** Emyr Wyn Jones. Dinbych: Gwasg Gee, 1971.
**Dr EMYR WYN JONES, Carreg Lefain Bach, Y Rhiw, Pwllheli, Gwynedd LL53 8AG.**

* * * *

***Copi mewn cyflwr rhesymol o Vitae Sanctorum Brittaniae et Genealogiae*** *(Gol. A. W. Wade-Evans).* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1944.
**HUW WILLIAMS, Eirianfa, 158 Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd. Ffôn: 0248 362752.**

* * * *

***O'r Pwlpud i'r Crogbren:*** *ffug-chwedl ddirwestol; William J. Griffiths (Rhiwlas).* Bangor: Evan Thomas, 1905.
***Pen y Dalar;*** William Owen. Dinbych: Gwasg Gee, 1960.
***Y Pwrpas Mawr, neu Helynt yr Atom ac erthyglau eraill.*** Abertawe: Gwasg John Penry, 1957.
**RICHARD H. LEWIS, 40 Maes Ceiro, Bow Street, Dyfed SY24 5BG. Ffôn: 0970 828102.**